# Crynodeb Cyfarfod

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru: FMCG 63 | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 4ydd Ebrill 2019 | **Lleoliad:** | Neuadd Reichel<br>Prifysgol Bangor<br>LL57 2TW |
| **Amser y Cyfarfod:** | 10:30 – 13:00 | | |
| **Yn bresennol:** | Ruth Rourke (IPROW – Cadeirydd Gweithredol) Jont Bulbeck (Ysgrifennydd Cyfoeth Naturiol Cymru), Susan Jackson (CNC), Neil Buffery (Cymdeithas Yrru Prydain), Keith Jones (Angling Cymru),Steve Rayner (Canŵ Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa'r Cambria), Rachel Evans (Y Gynghrair Cefn Gwlad – tan 11:53), Charles de Winton (CLA Cymru), Arthur Lee (Y Cerddwyr Anabl), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (NFU Cymru), Ani Sutton (Glandŵr Cymru), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Max Grant (Y Gymdeithas Mannau Agored), Rebecca Brough (Cerddwyr Cymru), Mark Stafford-Tolley (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Sarah Smith (WG), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid), Rachel Parry (CNC), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Cymru), John Morgan (Fforwm Mynediad Lleol Cymru), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru), Simon Pickering (Llywodraeth Cymru) Catherine Williams (Gorchymyn Lles mewn Cludiant Anifeiliaid), Roger Geffen (Cycling UK), Keith Davies (CNC) | | |
| **Sylwedyddion:** | **Quentin Grimley (CNC), Dave Liddy (CNC), Eurwyn Edwards (Fforwm Mynediad Lleol Afon Dwyfor), Margaret Grant (wedi dod gyda Max Grant)** | | |
| **Ymddiheuriadau**: | Howard Davies (Cadeirydd CNC,), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth CNC) Gwyn Smith (Sustrans), Richard Ball/Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain), | | |
| **Cyflwynwyr:** | Hannah Blythyn (Y Dirprwy Weinidog, Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Craig Grimes (Experience Community), Rachel | | |

Jarvis (CNC), Mefty Haider (CNC), Emma Edwards-Jones (Snowdonia Active/WATO), Stephen Marsh-Smith (Afonydd Cymru)

## 2. Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Cyflwynodd y Cadeirydd Hannah Blythyn AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai a Llywodraeth Leol.

Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad Llywodraeth Cymru yn ymateb i ymgynghoriad 2017 oedd yn nodi ei chynigion ar gyfer gwella mynediad yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth newydd.

[Mae'r datganiad llawn [a gyhoeddwyd am 11am ar 4ydd Ebrill 2019] ar gael yma:

https://gov.wales/written-statement-government-response-taking-forward-wales-sustainable-management-natural-resources ]

Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog fod llawer o'r cynigion yn ymgynghoriad 2017 wedi derbyn cefnogaeth fras ac y bydd y Llywodraeth yn gweithio ar y cynigion hynny sydd fwyaf technegol yn gyntaf - yn amodol ar y gwaith sy'n ofynnol o ran Brexit a'r adnoddau sydd ar gael. I gloi, dywedodd Ms Bleddyn ei bod yn croesawu parhau i feithrin perthynas adeiladol gyda'r Fforwm a'i aelodau a gwahoddodd unrhyw gwestiynau.

Cyflwynwyd nifer o gwestiynau i'r Dirprwy Weinidog gan aelodau'r Fforwm cyn y cyfarfod. Gwahoddodd y Cadeirydd y rhai a gyflwynodd gwestiynau i siarad yn gyntaf.

**Bernard Griffiths (BG) (Undeb Amaethwyr Cymru):** Nododd BG bod 2 ymgynghoriad wedi'u cynnal a bod goblygiadau sylweddol o ran mynediad: 'Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy …' a 'Brexit â'n Tir…' A fyddai deialog rhwng y 2 grŵp wrth ddatblygu cynigion manwl?

**Y Dirprwy Weinidog**: cafwyd trafodaeth eisoes rhwng y Gweinidogion perthnasol, a hefyd rhwng swyddogion y Llywodraeth. Bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Ychwanegodd **Simon Pickering (SP)** fod cysylltiadau wedi'u gwneud â chydweithwyr yn yr adran tir.
**BG:** Os bydd rheolwyr tir yn cael eu talu am fynediad, bydd angen ystyried atebolrwydd a goblygiadau cysylltiedig o ddarparu mynediad ar eu tir.
Nododd SP mai dyma'r math o fater y bydd angen ei drafod a chroesawodd awgrymiadau pellach ynghylch materion allweddol i'w hystyried

Cododd **Stuart France [SF]** (**Cyngor Ogofa'r Cambria**) fater terminoleg a dehongli o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas ag a yw ogofa’n cael ei ystyried yn hamdden awyr agored. Dywedodd y byddai'n well pe bai'r ddeddfwriaeth yn gliriach ynghylch pa weithgareddau a ganiateir ac y byddai'n fwy cynhwysol pe bai gweithgaredd nas cyfeirir ato yn cael ei dybied fel un a ganiateir.

Gofynnodd **y Dirprwy Weinidog** i SF nodi’r pwyntiau hynny ar bapur er mwyn i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach.
Nododd **SP** fod LlC wedi dilyn dehongliad CNC ar y mater hwn, ond y byddant yn ystyried y mater ymhellach unwaith y byddant wedi derbyn gwybodaeth bellach gan SF.

**Roger Geffen (RG)**(ar ran Cycling UK, gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain]: Trefnodd Cycling UK gefnogaeth ar gyfer Llwybrau i Gymru mewn ymateb i'r ymgynghoriad Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Nododd RG hefyd fod C-UK yn gefnogol iawn i'r cynigion ac i’r ymgais i ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi ehangu mynediad er mwyn mwynhau'r amgylchedd, er lles yr economi a'r manteision eraill y mae mynediad yn eu cynnig. Ysgrifennodd Cycling UK a Chymdeithas Ceffylau Prydain at Lywodraeth Cymru yn cynnig Llwybrau Cenedlaethol amlddefnydd newydd yng Nghymru [a'r DU]. Roedd cynnig Cycling-UK a Chymdeithas Ceffylau Prydain yn seiliedig ar hawliau presennol ond mae angen gwaith er mwyn cysylltu ac integreiddio mynediad yn well. Mae'r ddau sefydliad yn awyddus i weithio gyda'r Llywodraeth er mwyn dod o hyd i ffordd, fel bod cynigion y Llywodraeth yn cyflawni hyn, gan gynnwys cydgysylltu â gwaith Teithio Llesol ac unrhyw gyfleoedd ôl-Brexit. [Dosbarthwyd copi o lythyr Cycling-UK/Cymdeithas Ceffylau Prydain ar ddiwedd cyfarfod y Fforwm]
Wrth ymateb, dywedodd **y Dirprwy Weinidog** fod y llywodraeth yn gwerthfawrogi integreiddio rhwng gwahanol ddefnyddiau, a'r manteision sy'n darparu ar gyfer cymunedau, trafnidiaeth leol a hamdden; roedd yn cytuno fod angen archwilio'r mater ymhellach.

**Rachel Lewis-Davies** (NFU Cymru): A gynhelir Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn o gynigion deddfwriaethol? Cadarnhaodd **y Dirprwy Weinidog** y byddai hyn yn digwydd.

**John Morgan (JM)** (cynrychiolydd cenedlaethol Fforwm Mynediad Lleol yng Nghymru): Cododd John fater gwahanol fathau o ddynodiad mewn perthynas â Pharc Cenedlaethol a gofynnodd a fyddai Mynyddoedd Cambria yn cael eu dynodi'n Barc Cenedlaethol.
Atebodd **y Dirprwy Weinidog**, er ei bod yn parhau i ddal y portffolio [ar gyfer tirweddau dynodedig], nid oes ganddi fanylion am y mater a godwyd ar yr adeg hon a gofynnodd i John ysgrifennu at y Llywodraeth.

Ychwanegodd **SP** mai CNC sy’n asesu dynodiad, a bod gan CNC feini prawf ar gyfer y broses honno. Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried materion o'r fath yng nghyd-destun dogfen bolisi ‘Gwerthfawr a Gwydn’ y Llywodraeth. Fel rhan o'r strategaeth honno, byddai'r Llywodraeth yn edrych ar sut y gallai mathau eraill o dirweddau, y tu allan i'r ddau brif fath o ddynodiad, gyfrannu, gan gynnwys Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
Dywedodd **JM**, er mai mater yw i CNC [dynodi parc cenedlaethol], byddai'n rhaid i CNC ystyried cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac felly hoffai wybod safbwynt y Llywodraeth ar ddynodi Mynyddoedd y Cambria.

**Ruth Rourke (RR)** (Cadeirydd, IPROW): Mewn perthynas â newidiadau i faterion technegol hawliau tramwy cyhoeddus (*PROW*), a fyddai cyllid ychwanegol ar gael?
**Y Dirprwy Weinidog**: nid ydym mewn sefyllfa i roi gwybodaeth bendant am hynny ar hyn o bryd ond byddwn yn edrych ar hynny maes o law.

**Pete Rutherford (PR),** (Parciau Cenedlaethol Cymru): Mewn perthynas â mynediad at ddŵr, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu - neu barhau â'r system bresennol, sydd wedi bod yn aneffeithlon?
**Y Dirprwy Weinidog**: Rydym wedi penderfynu peidio â deddfu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os na cheir cynnydd o fewn amser rhesymol, yna byddwn yn ystyried gwneud hynny.
Ychwanegodd **PR** fod angen deddfu ac yna dod o hyd i gytundeb.

Atebodd **SP** ar y pwynt hwn bod y Llywodraeth yn glir ynghylch ei blaenoriaeth i ehangu mynediad ond ei bod yn parchu defnyddwyr eraill ac yn ceisio cydweithio wrth wneud hynny, os yn bosibl. Ar hyn o bryd nid yw consensws yn bosibl [ar gyfer mynediad at ddŵr] ac mae'r Llywodraeth yn dymuno gweld a ellir gwneud cynnydd. Nododd **SP** hefyd, os yw'r Llywodraeth yn deddfu, nid yw wedi datgan beth fyddai'r ddeddfwriaeth honno. Fodd bynnag, maent yn gobeithio y gellir gwneud cynnydd drwy weithio mewn cyd-destun ehangach ac felly, ar hyn o bryd, maent yn dymuno archwilio hynny ymhellach.

Dywedodd **Steve Rayner (SR)** (Canŵ Cymru), o safbwynt chwaraeon dŵr, bod angen deddfwriaeth er mwyn lefelu'r cae chwarae. Pa adnodd fydd yn cael ei gyflwyno i hwyluso cytundebau neu drefniadau mynediad newydd? Dywedodd **SP** fod swyddogion [Llywodraeth Cymru] yn trafod gyda CNC a fforymau er mwyn symud hynny ymlaen.

**Elfyn Jones (EJ)** (Cyngor Mynydda Prydain): roedd y cynigion yn cynnwys ymestyn mynediad CROW [Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy]. A yw mynediad i'r arfordir yn rhan o hynny?
**Y Dirprwy Weinidog**: ydy, gofynnir i'r Grŵp Diwygio Mynediad ystyried y mater hwnnw.

**Roland Pittard (RPi)** (Cymdeithas Hosteli Ieuenctid): mae perthynas gref rhwng ‘Teithio Llesol 'a *PROW* a mynediad i hamdden. Gallai datblygu llwybrau troed gyfrannu at y ddau. A fydd y Llywodraeth yn ceisio cydamseru Teithio Llesol a mynediad hamdden?
**Y Dirprwy Weini**dog: bydd, rydym yn cydnabod y mater hwnnw ac yn rhoi mwy o bwyslais ar integreiddio. Mae ei chydweithiwr, Lee Waters [y dirprwy Weinidog Trafnidiaeth] yn edrych ar y mater ar hyn o bryd wrth adolygu gwaith y Ddeddf Teithio Llesol. Nododd **RPi** fod angen cymorth ariannol hirdymor ar gyfer gweithredu gwelliannau.

**Rachel Evans (RE)** (Cynghrair Cefn Gwlad): Dywedodd Rachel fod y Gynghrair yn croesawu mynediad cynyddol a gwell, cyn belled â'i fod yn cael ei reoli, a heb fod yn niweidiol i fusnesau gwledig, gan gynnwys pysgotwyr. Byddent yn croesawu cael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaethau, er mwyn cynrychioli buddiannau pysgotwyr.

**PR:** o ystyried rôl bwysig Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol fel Awdurdodau Mynediad byddent yn dymuno cymryd rhan yn y Grŵp Diwygio Mynediad.

**[Gadawodd y Dirprwy Weinidog y cyfarfod er mwyn mynychu apwyntiad arall bryd hyn. Fodd bynnag, parhaodd y Fforwm â'r drafodaeth am gyfnod]**

**JM**: Mae cyngor Fforwm Mynediad Lleol yn tueddu cael ei dargedu at awdurdodau lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a CNC. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, roedd adnoddau'n dod yn aml trwy gyrff eraill. Teimlai fod angen trosolwg o gyrff o'r fath ac mae angen iddynt dderbyn cyngor gan y Fforymau Mynediad Lleol o ystyried eu rôl.

**RG:** Mae canllawiau Teithio Llesol yn destun adolygiad ar hyn o bryd ac felly mae cyfle i adlewyrchu integreiddio yno, ac i aelodau'r Fforwm gynnig sylwadau a dylanwadu. Ar y cyrion trefol yn arbennig y mae’r rhyngwyneb rhwng teithio llesol ac anghenion mynediad hamdden yn galw am y gwaith mwyaf.

**Rebecca Brough (RB)** (Ramblers Cymru): Mae'r Cerddwyr wedi codi mater yr angen i fynd i'r afael â'r diffiniadau sy'n bodoli o anghenion hamdden yn erbyn anghenion iwtilitaraidd. Roeddent hefyd wedi nodi bod diffyg arian i weithredu gwelliannau i’r mynediad i hamdden.

Nododd **RR** fod yn rhaid i Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (*ROWIP*) ystyried Teithio Llesol. Byddai'n ddefnyddiol cael arweiniad/cyngor newydd gan y Llywodraeth i awdurdodau lleol am yr integreiddio rhwng y ddau er mwyn iddynt gael eu hystyried yn briodol wrth i awdurdodau adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

**Mark S-T (MS-T)** (Gweithgor Rheolwyr HTC Cymru): A fydd HTC yn gymwys ar gyfer y cynllun rheoli tir? Un o fanteision posibl unrhyw gynllun ôl-Brexit yw y dylai fod yn ofynnol i reolwyr tir fodloni eu HTC a'u dyletswyddau mynediad cyn iddynt fod yn gymwys ar gyfer unrhyw gynllun nwyddau cyhoeddus newydd.
Awgrymodd **BG** fod yr ysgrifenyddiaeth yn gwahodd rhywun o Lywodraeth Cymru i siarad am yr agweddau mynediad hamdden ar gynllun rheoli tir ar ôl-Brexit yn y dyfodol.

Atebodd **SP** y gall y Llywodraeth gynghori'r Fforwm pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael er mwyn i hynny gael ei yrru ymlaen .
Cytunodd **RL-D** â phwynt BG a nododd ei bod yn hanfodol bod trafodaeth yn digwydd gyda'r rheini sy'n datblygu'r cynlluniau a'u bod yn deall.

## 1. [parhad – allan o drefn yr agenda]

Yn dilyn cyflwyniad a thrafodaeth y Gweinidog am gynigion mynediad y Llywodraeth, dychwelodd y cyfarfod i'r rhan gynharach honno o'r agenda oedd wedi ei hepgor.

Gofynnodd y Cadeirydd i Jont Bulbeck adrodd ar y Camau Gweithredu o gyfarfod mis Tachwedd 2018:

*[Tudalen 4] **Cam Gweithredu 62.2**: Cyhoeddi ymgynghoriad Datganiadau Safiad i aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ac aelodau'r Fforwm er mwyn iddynt ymateb.*

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i'r aelodau. Mae Joe Roberts yn y broses o ddiwygio'r dogfennau yng ngoleuni amryfal sylwadau mewnol ac allanol a dderbyniwyd hyd yn hyn. Bydd yn rhoi gwybod i'r Fforwm pan fyddant yn derfynol ac ar gael ar wefan CNC.

*[Tudalen 6] **Cam Gweithredu 62.2:** Carys Drew i ail-gyhoeddi Cylch Gorchwyl drafft i'r aelodau a chynnwys y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau. Yr Aelodau i ddarparu adborth ar y Cylch Gorchwyl a darparu sylwadau perthnasol eraill. Carys Drew i ddod â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig i gyfarfod nesaf y Fforwm.*

Anfonwyd y Cylch Gorchwyl drafft allan ar ôl y cyfarfod. Derbyniwyd rhai sylwadau. Roedd Carys wedi bod yn gweithio ar orffen y ddogfen

ddrafft ar sail y sylwadau a ddarparwyd. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gwblhau cyn i Carys fynd o'i gwaith yn sâl. Roedd hyn hefyd yn golygu bod yr eitem Cylch Gorchwyl ar agenda heddiw wedi'i gohirio. Felly awgrymwyd y Cam Gweithredu diwygiedig canlynol:

**Cam Gweithredu Newydd 63.1: Carys Drew i gwblhau'r ddogfen Cylch Gorchwyl a chyhoeddi'r drafft terfynol i aelodau ar ôl y cyfarfod hwn. Bydd y Fforwm nawr yn ystyried ac yn cadarnhau'r ddogfen Cylch Gorchwyl derfynol yng nghyfarfod y Fforwm ym mis Gorffennaf 2019.**

***[Tudalen 7] Cam Gweithredu 62.3****: Carys Drew i chwilio am siaradwr priodol mewn perthynas â Theithio Llesol ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.*

*Nid oedd Carys yn gallu dod o hyd i rywun i fynychu y tro hwn. Felly bydd Cam Gweithredu 62.3 yn cael ei barhau i'r cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i Jont neu Carys ar ôl y cyfarfod os oedd ganddynt awgrymiadau ynghylch pwy fyddai'n berson da i siarad â'r Fforwm ar y mater.*

[Tudalen 7] **Cam Gweithredu 62.4**: Carys Drew i gysylltu â chysylltiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â phresenoldeb yn Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

Cysylltodd Carys Drew â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn ag anfon cynrychiolydd i'r Fforwm hwn. Nid oedd Jont Bulbeck yn ymwybodol o'u hymateb ond nododd nad oedd unrhyw gynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod.

**11:20**

## 3. Cymru i Bawb – dulliau o ddisgrifio'r awyr agored ar gyfer pobl anabl

Cyflwynodd y Cadeirydd **Craig Grimes**, o *Experience Community*. Roedd Rachel Parry o CNC hefyd yn bresennol.

**Esboniodd Craig fod *Experience Community*** a **CNC** yn edrych ar ffyrdd arloesol o ddarparu gwybodaeth sy'n galluogi pobl anabl i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas ag ymweld â'r awyr agored. Yna aeth Craig drwy ei gyflwyniad [cylchredwyd].

Esboniodd Craig, gan fenthyca o'r cynllun graddio lliwiau ar gyfer llwybrau sgïo a beicio mynydd, edrychwyd ar lwybrau mynediad ar gyfer cyfuniad o feini prawf e.e. graddiannau, ennill trychiad a cholled a rhwystrau.

Yna ategwyd y system raddio â gwybodaeth fideo, a dangoswyd enghraifft i'r Fforwm.

Roedd y prosiect yn edrych ar ffyrdd gwell o ddarparu gwybodaeth e.e. gwybodaeth am raddiant a thrychiad gan ddefnyddio GIS a ffoto lwybrau. Roedd hefyd yn edrych ar hyfforddi gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r dulliau sy'n cael eu datblygu, gan annog eraill i gofnodi llwybrau a sicrhau bod y wybodaeth ar gael yn ehangach.

Nododd Craig hefyd ei fod, o brofiad, wedi canfod bod llety yn aml yn beth anodd iawn a bod angen ei wella yn aml.

**Cam Gweithredu 63.2: Y Cyflwyniad i'w ddosbarthu i'r aelodau**

## 4. Datganiadau Ardal

Rhoddodd **Rachel Jarvis (RJ),** Uwch Ymgynghorydd Cyfoeth Naturiol, CNC a **Mefty Haider (MH),** Uwch Ymgynghorydd Cyfoeth Naturiol, gyflwyniad er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am y broses a'r arfer sy'n datblygu ar gyfer datblygu Datganiadau Ardal, y gwaith a wnaed hyd yma a sut y bydd mynediad i hamdden yn cael ei gynnwys. Mae RJ ac MH yn rhan o dîm CNC sy'n datblygu Datganiadau Ardal yng Ngogledd Cymru.

Arweiniodd Mefty y Fforwm drwy'r cefndir i Ddatganiadau Ardal, y cyd-destun deddfwriaethol, gan gynnwys yr integreiddio rhwng y Deddfau, egwyddorion rheoli adnoddau naturiol [*SMNR*] a nodau llesiant. Nododd hefyd y ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, gyda'r angen am gydweithio o fewn a rhwng sefydliadau.

Dyma’r 3 elfen allweddol yn y broses Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

- Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol [*SoNaRR*] sy'n nodi'r dystiolaeth am gyflwr adnoddau naturiol;
- Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol y Llywodraeth [*NNRP*] sy'n pennu'r blaenoriaethau polisi ar lefel genedlaethol mewn ymateb i Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol.
- Datganiadau Ardal (gofyniad a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd [Cymru] 2016)

Felly bydd Datganiadau Ardal yn nodi sut y bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cael ei gyflwyno o fewn ‘lle’.
Bydd CNC yn cynhyrchu 6 Datganiad Ardal ar gyfer arwynebedd tir Cymru ac 1 ar gyfer ardal forol Cymru. Byddant yn ddogfennau deinamig, sy'n esblygu, fydd wedi eu gosod ar y we.

Bydd y Datganiadau yn cynnwys ‘Proffiliau Ardal’ ac yn gosod allan [drafft i ddechrau] themâu sy'n dod i'r amlwg. Bydd drafftiau o'r rhain yn sail i ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a phartneriaid.

Yna rhoddodd y cyflwyniad enghreifftiau o wybodaeth broffil mewn perthynas â mynediad i’r awyr agored am ‘fannau gwyrdd agored’ a ‘Teithio Llesol’. Ychwanegodd **Rachel Jarvis** y bydd y themâu lefel uchel yn y Datganiadau yn faes trafod allweddol gyda’r rhanddeiliaid.

Gofynnodd **RR** sut y bydd y Datganiadau'n cysylltu â buddion cyhoeddus. Rhoddodd Ruth enghraifft o lwybr yn ei hawdurdod sydd â llawer o wahanol broblemau. A fydd y broses hon yn helpu i fynd i'r afael â materion o'r fath a'u datrys a sut y gall y grŵp hwn helpu?
**MH**: dylai'r broses ymgysylltu helpu i ganfod y mathau hyn o brosiectau a chyfleoedd er mwyn eu datrys trwy ddechrau ‘sgwrs’ amdanynt.

**RR:** Sut fydd hyn yn arwain at brosiectau?
**MH:** dylai prosiectau gael eu llywio gan dystiolaeth gyffredin gan bartneriaid a rhanddeiliaid; trwy gytundeb ar beth yw'r materion allweddol; nodi mecanweithiau, sefydliadau cyflawni. Nododd y bydd angen mynd i'r afael â materion ar wahanol raddfeydd: bydd rhai angen gwaith ar lefel genedlaethol ac felly sefydliadau lefel genedlaethol fydd yn mynd i'r afael â’r rhain.

**JM:** pwynt allweddol yn y broses fydd gwerthuso opsiynau a'r manteision ddaw ohonynt. Ar hyn o bryd mae’r dulliau'n anffurfiol. A yw CNC wedi datblygu ffyrdd ar gyfer asesu dulliau mwy gwrthrychol o werthuso opsiynau?
**MH**: bydd hynny'n rhannol drwy'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid. Ychwanegodd **SP** fod Llywodraeth Cymru wedi datblygu dangosyddion cenedlaethol ar gyfer barnu cynnydd gyda rheoli adnoddau naturiol).

**RL-D:** Fel rheolwr tir mae hyn yn ymddangos yn gysyniadol ac yn haniaethol. Nid yw'n gweithio i bobl ar lawr gwlad ar lefel ymarferol. Mae angen ymgynghori â phobl er mwyn darparu gweledigaeth gyffredin.

**KD:** dyna'r cam y mae CNC wedi'i gyrraedd; i gael yr ymgynghoriadau hynny er mwyn disgrifio'r weledigaeth honno, yn genedlaethol, ac yn lleol drwy'r Datganiadau Ardal.
**RP (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid):** Bydd yn her sylweddol i sefydliadau ymgysylltu â 7 Datganiad Ardal. A oes ffordd i hynny ddigwydd yn genedlaethol?
**MH**: mae hynny hefyd yn rhan o'r broses.

12:10

## 5. Adventure Smart UK: datblygiad diweddaraf a lansiad gwefan newydd

Cyflwynodd **Emma Edwards-Jones (EE-J)**, rheolwr prosiectau *Snowdonia Active* y gwaith *Adventure Smart UK (AS-UK)* sy'n ymwneud â phobl yn bod yn weithgar ac yn mwynhau'r awyr agored mewn ffordd ddiogel. Mae'r wybodaeth, sy'n defnyddio dull newid ymddygiad, wedi'i thargedu at gyfranogwyr lefel mynediad (nid ymarferwyr arbenigol), a'i nod yw lleihau'r galwadau diangen mewn perthynas â sefydliadau achub.

Mae'r prosiect yn gydweithrediad rhwng tua 30 o sefydliadau.

Lansiwyd *Adventure Smart Wales* yn 2018 ac mae'r prosiect newydd ledled y DU yn adeiladu ar y gwaith hwnnw. Ariannwyd y gwaith gwreiddiol gan Croeso Cymru ac roedd wedi'i gysylltu â'u blynyddoedd thematig hyrwyddol [Blwyddyn Antur a Blwyddyn y Môr].

Aeth EE-J drwy'r egwyddorion cyfathrebu, pwysigrwydd sut y caiff y negeseuon eu cyfleu, megis trwy ddefnyddio delweddau, fideo a negeseuon sydd wedi'u hystyried yn dda:

- *Meddyliwch am offer y bydd eu hangen arnoch [ar gyfer eich gweithgaredd]*
- *Gwiriwch a gwyliwch y tywydd*
- *Gwnewch yn siŵr fod gyda chi'r sgiliau cywir [ar gyfer y gweithgaredd rydych chi'n cymryd rhan ynddo]*

Nododd y rhagwelir y bydd AS-UK yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau eraill a'i fod yn cael ei gyflwyno ledled y DU ar sail cyrchfan ranbarthol.

Dyma'r wefan Gymraeg:
[http://www.adventuresmartwales.com/en/home/](http://www.adventuresmartwales.com/en/home/)

Ceir hefyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, posteri a phecyn offer busnes. Gall sefydliadau eraill ddefnyddio'r holl adnoddau hyn.

Mae'r prosiect hefyd wedi cysylltu â chyfleusterau newydd fel yr orsaf dywydd ar yr Wyddfa.
Mae'r gefnogaeth arall yn cynnwys hyrwyddiad gan JD Sports, BMC a'r *Ramblers*.

**<u>Cam Gweithredu Newydd 63.3: Dylai aelodau'r Fforwm gysylltu ag EE-J neu Paul Donovan am ragor o wybodaeth neu fanylion am yr adnoddau sydd ar gael</u>**

## 5. Gohiriwyd yr eitem Cylch Gorchwyl tan y cyfarfod nesaf

## 6. Afonydd Cymru

Cyflwyniad gan Dr Stephen Marsh-Smith (SMS) am waith Afonydd Cymru [Ymddiriedolaeth Afonydd Cymru]. Roedd y cyflwyniad hefyd yn gais am aelodaeth o'r Fforwm.

[Nododd y Cadeirydd fod pob aelodaeth ar sail Cylch Gorchwyl y Fforwm - mae fersiwn ddiwygiedig i'w chadarnhau ym mis Gorffennaf]

Sefydliad ambarél yw Afonydd Cymru sy'n cynrychioli chwe Ymddiriedolaeth Afonydd ledled Cymru:

- Clwyd, Conwy a Gwynedd
- Hafren
- De Ddwyrain Cymru
- Dyfrdwy Cymru
- Gorllewin Cymru
- Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg

Am fwy o wybodaeth am y sefydliad gweler:
http://afonyddcymru.org/

Bu SMS yn arwain gwaith Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg am nifer o flynyddoedd ac mae'n parhau i fod yn Gyfarwyddwr. Mae gwaith Dr Marsh-Smith wedi cynnwys datblygu trefniadau mynediad i hamdden ar gyfer padlwyr i rannau o Afonydd Gwy ac Wysg.

Mae Afonydd Cymru (AC) yn gweithio'n benodol i wella pysgod yng Nghymru a'r amodau sy'n gwella pysgodfeydd a physgota. Rhoddodd SMS enghreifftiau o waith megis: datblygu llwybrau pysgod, adfer cynefinoedd, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol; y cynllun pasbort pysgod - gwella mynediad i bysgota ar gyfer cynulleidfa ehangach.

Wrth weithio gyda Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg, roedd SMS wedi datblygu mynediad canŵ trwy ddatblygu trefniadau ar Afon Wysg ac Afon Gwy ar adegau o lif addas ac ar adegau nad oedd yn gwrthdaro â'r amseroedd pysgota gorau. Roedd y trefniadau hefyd yn helpu i fodloni pryderon rheolwyr pysgota a thir. Mae gwybodaeth am drefniadau yn cynnwys darparu tudalennau gwe, mapiau, gwe-gamerâu byw, arwyddion a gwybodaeth ffôn.

Dywedodd SMS fod y gwaith wedi mynd yn ei flaen am gyfnod o 12 mlynedd, a’i fod wedi lleihau gwrthdaro. Teimlai ei fod yn gwrthbrofi

agwedd negyddol Undeb Canŵio Prydain a Chymdeithas Canŵio Cymru a’i fod yn cynnig ateb i'r materion mordwyo presennol gan ddarparu buddion lluosog.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau i SMS:
Llongyfarchodd **PR** SMS ar y gwaith yr oedd wedi bod yn rhan ohono. Teimlai nad yw trefniadau generig yn gweithio ledled Cymru ac mae yna sawl enghraifft o wrthdaro. Mae APCE eu hunain wedi rhoi trefniadau ar waith yng Nghonwy Uchaf. Ond mae'n teimlo bod angen deddfu ar hyn er mwyn ei ddatblygu - nid ym mhobman bob amser - yn seiliedig ar ddeddfwriaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, yn ei farn ef.
Atebodd **SMS** fod angen partneriaid parod.
Nododd **PR** nad yw'n ddrud i ddarparu mannau mynd i mewn ac allan, arwyddion ac isadeiledd angenrheidiol arall. Fodd bynnag, mae angen lleihau atebolrwydd cyfreithiol sy'n deillio o fynediad o'r fath.

Trafodaeth Cais
[Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd i SMS a’r rhai nad oeddynt yn aelodau o'r Fforwm i adael yr ystafell, felly gallai'r Fforwm drafod cais Afonydd Cymru am aelodaeth o'r Fforwm.]

Atgoffodd y Cadeirydd y Fforwm o'r Broses Ymgeisio.

Dywedodd RR fod aelodaeth y Fforwm, ac felly ceisiadau am aelodaeth, ar sail Cylch Gorchwyl y Fforwm [Nododd Jont fod y Cylch Gorchwyl drafft diweddaraf wedi'i anfon at SM-S].

Nododd Jont mai nod y drafodaeth am y cais yw cyrraedd consensws eang (nid unfrydol o reidrwydd) ynghylch a ddylid derbyn cais aelodaeth o Afonydd Cymru. Y prif feini prawf i'w hystyried gan aelodau yw:

- A yw'r sefydliad wedi dangos diddordeb digonol mewn mynediad hamdden i'r awyr agored ac wedi ymgysylltu â hwnnw
- Bod gan y sefydliad ddigon o brofiad ac arbenigedd sy'n berthnasol i ac a allai fod yn sail i waith y Fforwm
- Bod y sefydliad wedi dangos ei fod yn cytuno i aelodaeth yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl [drafft]
- Ac yn olaf, bod cytundeb cyffredinol rhwng yr aelodau i'r sefydliad sy'n ymgeisio i ddod yn aelod o'r Fforwm
- Canlyniad arall, os oes gwahaniaeth barn sylweddol, yw bod sefydliad yn derbyn papurau yn hytrach nag yn cael sedd fel aelod llawn. Yn y pen draw, rhaid i CNC benderfynu ar faterion o'r fath, er y bydd CNC yn gyffredinol yn dilyn y consensws cyffredinol lle mae un wedi'i gyrraedd.

Yn dilyn trafodaethau a sylwadau gan aelodau, crynhowyd y camau a'r pwyntiau canlynol:

**Cam[au] 63.4**

a. **Ni chafwyd consensws ynghylch aelodaeth AC yn seiliedig ar gyflwyniad SMS**.
b. **Teimlwyd bod y cyflwyniad yn canolbwyntio gormod ar weithio rhanbarthol ar lefel unigol yr Ymddiriedolaeth Afonydd**
c. **Roedd yr Aelodau eisiau rhagor o wybodaeth gan SMS ynghylch perthnasedd gwaith mynediad Afonydd Cymru i waith y Fforwm ar lefel genedlaethol ac i hynny gael ei rannu gydag aelodau**
d. **Dylid gofyn i SMS/CNC ddarparu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth CNC-Afonydd Cymru. Bydd hyn hefyd yn cael ei rannu gydag aelodau'r Fforwm fel gwybodaeth bellach i'w hystyried**
e. **Eitem i'w chynnwys yn agenda cyfarfod Gorffennaf 2019 i ddod i ben â'r cais**
f. **Dylid gwahodd SMS fel sylwedydd i'r cyfarfod nesaf**

Wedi i'r drafodaeth ddod i ben, gwahoddwyd yn ôl y rhai y gofynnwyd iddynt adael.

---

### 7. Cyfraniadau gan yr Aelodau

Dosbarthodd RL-D wybodaeth gan NFU Cymru i aelodau'r Fforwm.

**Cam Gweithredu 63.5: CNC i ychwanegu gwybodaeth yr NFU(C) at ddogfen Cyfraniadau Fforwm Mynediad Cenedlaethol (C) cyn iddi gael ei gosod ar y Wefan.**

---

### 8.Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall

---

### 9. Rhagolwg a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

2il Gorffennaf 2019 – Canolbarth Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)
5ed Tachwedd 2019 – De Cymru (lleoliad i'w gadarnhau)

**Cam Gweithredu 63.6 Bydd CNC yn pennu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Fforwm 2020 ac yn hysbysu'r aelodau mewn da bryd ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

---

| | |
|---|---|
| 13:00 | **Cinio** |